Hawdd ei Ddeall

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cronfa Buddsoddi Cyfalaf

## Cyllid ar gyfer lleoliadau theatrau a chelfyddydau perfformiadol



Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Fuddsoddi Cyfalaf mewn Lleoliadau Theatrau a Chelfyddydau Perfformiadol**'.

**Ebrill 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae'r ddogfen yma'n hawdd ei deall. Efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **print glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae'n dweud beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 34**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.arts.wales/cy

**E-bost:** capital@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys


Ynglŷn â Chronfa Buddsoddi Cyfalaf ........ 4

Y prosiectau y mae arnon ni eisiau helpu ........ 7

Faint o arian allwch chi wneud cais amdano ........ 9

Pwy sy’n gallu gwneud cais ........ 11

Rheolau’r gronfa ........ 14

Sut i wneud cais ........ 16

Ynglŷn â’r cwestiynau ar y ffurflen ........ 19

Sut i ddefnyddio patrymlun cyllideb y prosiect ........ 26

Mawrth ........ 27

Sut i gysylltu â ni ........ 33

Geiriau anodd ........ 34

# Ynglŷn â Chronfa Buddsoddi Cyfalaf

Cyngor Celfyddydau Cymru ydyn ni. Rydyn ni'n rhoi arian i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.



Rydyn ni wedi cael **dros £1 miliwn o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru**.



Mae'r arian yma ar gyfer helpu theatrau a lleoliadau celfyddydau perfformaidol ar gyfer y flwyddyn 2024 i 2025.



Mae'r arian ar gyfer **prosiect Cyfalaf**.



Mae **prosiect Cyfalaf** yn meddwl gwario arian ar adeiladau ac offer. Mae ar gyfer atgyweirio pethau, eu gwneud nhw'n well, neu eu cadw mewn cyflwr da.



Os byddwch chi'n gwneud cais am yr arian yma i wneud rhywbeth yn well, bydd yn rhaid i chi ddangos sut y bydd:

- yn para'n hirach



- yn gwneud lles i fwy o bobl



- o well ansawdd.



Hefyd, meddyliwch sut y bydd eich prosiect yn effeithio ar yr **amgylchedd**.

Mae'r **amgylchedd** o amgylch ble rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, a'r aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.




Dylech chi ddweud wrthyn ni sut y gwnaethoch chi wario'r arian erbyn **5 Mawrth 2025**.




Dylech chi wneud cais am bob arian grant erbyn **5 Mawrth 2025**.



Mae’r rhaid i Gyngor y Celfyddau ddweud wrth Lywodraeth Cymru sut mae’r prosiectau yn mynd.



Os na fyddwch chi’n hawlio eich arian grant erbyn 5 Mawrth 2025, byddwch yn ei golli. Fyddwn ni ddim yn gallu rhoi mwy o arian i chi i orffen eich prosiect yn nes ymlaen.

# Y prosiectau y mae arnon ni eisiau helpu

Mae arnon ni eisiau helpu tri prif fath o brosiectau:

1. **Cadw theatrau ac adeiladau celfyddyd perfformiadol mewn ansawdd da.**



Mae arnon ni eisiau eu helpu nhw i aros mewn cyflwr da. Mae ei gwneud hi'n haws i bawb fynd i mewn a defnyddio'r adeiladau yn bwysig i ni.



Mae arnon ni eisiau gwybod sut rydych chi'n gwella **hygyrchedd** y tu ôl i'r llwyfan ac o flaen y llwyfan.




Mae **hygyrchedd** yn meddwl y gall pawb ddod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio. Mae'n meddwl bod lleoedd yn hawdd mynd i mewn iddyn nhw neu'n hawdd mynd o'u hamgylch.

**2. Gwneud theatrau a lleoliadau celfyddyd yn well a phara'n hirach.**



Mae arnon ni eisiau eu helpu i wneud mwy o arian a gwario llai.  A bod yn well lleoedd i bobl ymweld â nhw.

**3. Helpu'r celfyddydau i fod yn gryf a thyfu.**



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan theatrau a lleoliadau yr offer iawn i weithio'n dda. Byddwn yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n helpu'r **amgylchedd** ac yn arbed ynni.



Fyddwn ni ddim yn derbyn ceisiadau i brynu:

- Aadeiladau newydd
- Cerbydau
- Offerynnau cerdd

# Faint o arian allwch chi wneud cais amdano



Wrth gynllunio eich prosiect, meddyliwch beth fyddwch chi'n wneud os:

- byddwn ni'n rhoi llai o arian nag roeddech chi wedi gofyn amdano
- neu ddim arian o gwbl.



I helpu'r rhan fwyaf o bobl, bydd y rhan fwyaf o grantiau y byddwn ni'n eu rhoi **dan £50 mil o bunnoedd**.



Gallwch wneud cais am wahanol symiau. Bydd yn rhaid i chi ddod o hyd i beth arian o leoedd eraill i'w ychwanegu at ein harian ni.



**Os oes arnoch chi angen hyd at £50 mil o bunnoedd** – Gallwch ofyn am y rhan fwyaf ohono. 90% o'ch costau.



**Os oes arnoch chi angen hyd at £250 mil o bunnoedd** – Gallwch ofyn i ni am fwy na hanner ohono. 75% o'ch costau.




Dydyn ni ddim yn rhoi y swm uchel hwn i lawer o leoedd.

Mae'n rhaid i chi ddangos prawf:




- o ble y bydd gweddill yr arian fydd ei angen arnoch yn dod
- ac y gallwch ei gael.

# Pwy sy’n gallu gwneud cais



Dim ond os ydych chi’n theatr neu’n lleoliad celfyddydau perfformiadol y gallwch chi wneud cais yng Nghymru.

**Bydd arnoch chi angen:**




- **Polisi cyfleoedd cyfartal** sy’n dilyn y gyfraith. Ac sydd wedi cael ei wirio gan eich arweinwyr yn y tair blynedd diwethaf. Mae hon yn ddogfen sy’n trin pawb yn deg ac yn rhoi’r un cyfleoedd iddyn nhw.




- Cyfrif banc yn eich enw cyfreithiol.



- Cyfrif banc yn enw eich grŵp. Bydd arno angen dau o bobl i gytuno er mwyn i arian symud. Cliciwch yma i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â chyfrifon banc.



- Bod heb golli unrhyw daliadau roedd arnonch chi angen eu gwneud i ni.




Bydd arnoch chi angen dweud wrthyn ni eich bod yn cadw at y rheolau hyn. Mae'n rhaid i chi wneud hyn pan fyddwch chi'n gwneud cais am arian ar-lein.

**Mae'n rhaid i chi hefyd:**



- Gael lle ble gall o leiaf 50 o bobl eistedd ar gyfer digwyddiadau.



- Bod wedi cynnal sioeau da a digwyddiadau ar gyfer pobl yn y gorffennol.



- Cynnal digwyddiadau rheolaidd - gydag o leiaf un digwyddiad proffesiynol bob mis mewn ardal sydd wedi ei gynllunio ar gyfer perfformiadau.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu mynd i mewn a defnyddio eich adeilad.



- Mae'n rhaid i chi ddefnyddio eich lle ar gyfer cynnal digwyddiadau celfyddyd. Allwn ni ddim rhoi arian i chi os ydy celfyddyd ond yn rhan fechan o'r pethau rydych chi'n wneud.

# Rheolau'r gronfa

Byddwn yn edrych ar y pethau hyn er mwyn penderfynu pwy fydd yn cael yr arian:




- Ydy eich prosiect yn dilyn ein rheolau ac yn gwneud synnwyr.




- Beth ydych chi wedi ei wneud yn y gorffennol o ran celfyddyd perfformiadol.




- Allwch chi orffen eich prosiect mewn pryd.



- Ydy gweddill yr arian sydd ei angen arnoch chi ar gyfer eich prosiect gennych chi.




- Gawsoch chi arian yn ddiweddar ar gyfer prosiectau cyfalaf eraill.




Gwnewch yn siŵr eich bod yn egluro’r pwyntiau hyn pan fyddwch chi’n gwneud cais.




Byddwn yn meddwl ble yng Nghymru ydych chi. A sut y bydd eich prosiect yn helpu pobl.



Fyddwn ni ddim yn rhoi arian os yw eich prosiect yn gwneud i’ch costau fynd i fyny.



Fyddwn ni ddim yn rhoi arian os ydy eich prosiect yn gwneud i chi ddibynnu mwy ar arian o’r tu allan.

# Sut i wneud cais



1. E-bostiwch ni yn capital@arts.wales, gyda nodyn byr am eich prosiect.



2. Byddwn yn anfon dolen gyswllt i'r ffurflen gais atoch.




3. Bydd arnoch chi angen defnyddio ein porth ar-lein i wneud cais. Os nad ydych chi wedi cofrestru eto, cliciwch yma i ddysgu sut.



4. Llenwch y ffurflen gais ar-lein. Defnyddiwch ein **Patrymlun Cyllideb Cyfalaf** i ddangos i chi sut y byddwch chi'n defnyddio'r arian.




Mae'n rhaid i chi wneud cais **cyn hanner dydd ar 24 Mai 2024**.




Byddwn yn penderfynu erbyn **diwedd Gorffennaf 2024**.

## Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad



Bydd grŵp o aelodau o staff yn edrych ar y ceisiadau. Ac yn awgrymu penderfyniadau i'n Pwyllgor Cyfalaf.



Os ydyn ni'n dweud **ie** fel ateb i'ch cais, byddwn ni'n anfon llythyr cynnig ac unrhyw amodau ychwanegol atoch.



Os ydyn ni'n dweud **na**, byddwn ni'n dweud pam wrthych chi. Gallwch chi siarad â rhywun o'n tîm cyfalaf amdano.



Rydyn ni’n talu am brosiectau cyfalaf ar ôl i chi ddangos y biliau i ni. Bydd rhywun o’n tîm cyfalaf yn egluro sut y byddwch chi’n cael eich talu.

## Hygyrchedd



Os oes gennych chi **anghenion hygyrchedd**, e-bostiwch ni yn grants@arts.wales. Byddwn yn siarad am ffordd y gallwn ni eich helpu chi. Cliciwch yma i ddysgu mwy am gefnogaeth gyda’ch anghenion hygyrchedd.



Mae **anghenion hygyrchedd** yn meddwl pethau sydd eu hangen arnoch chi er mwyn medru cyrraedd eich nod. Er enghraifft, gwybodaeth hawdd ei deall. Neu olau gwan mewn ystafell.

# Ynglŷn â'r cwestiynau ar y ffurflen

## 1. Gwirio cyn ymgeisio




Gwnewch yn siŵr bod gennych chi bopeth yn barod cyn i chi ddechrau ymgeisio.

## 2. Cysylltu â chi




Dywedwch wrthyn ni sut y gallwn ni gysylltu â chi, pa iaith rydych chi'n hoffi ei defnyddio, a'ch manylion banc.

## 3. Dywedwch wrthyn ni am eich prosiect




Dywedwch enw eich prosiect wrthyn ni. Dywedwch pryd y bydd yn cychwyn ac yn gorffen. Faint o arian sydd ei angen arnoch, gan gynnwys costau ar gyfer cefnogaeth **hygyrchedd**.

## 4. Bwriad y prosiect



Egluro beth y mae arnoch chi eisiau wneud, pam mae hynny'n dda, a pham rydych chi eisiau gwneud hynny.




Sut rydych chi'n cyd-fynd â'r rheolau ar gyfer y gronfa. **Darllenwch dudalennau 14 a 15** i gael mwy o wybodaeth.



Sut byddwch chi'n gwneud hi'n hawdd i bobl anabl ymuno. Ydych chi wedi rhoi prawf ar hyn?



Allwch chi ddangos i ni bod eich grŵp yn trin arian yn dda?



Sut byddwch chi'n cynllunio eich prosiect a'i gadw ar fynd?




O ble bydd yr holl arian ar gyfer y prosiect yn dod?




Beth fyddwch chi'n wneud os bydd problemau'n digwydd nad oeddech chi'n eu disgwyl?

## 5. Celfyddyd




Pa wahanol fathau o gelfyddyd fydd yn rhan o'ch prosiect?

## 6. Mathau o weithgareddau




Pa fathau o gelfyddyd, sioeau a digwyddiadau fyddwch chi'n eu cael?

## 7. Y targedau rydych chi'n bwriadu eu cyrraedd




Eich nodau. Fel faint o sioeau neu ddosbarthiadau. A faint o bobl fydd yn dod.

## 8. Iaith




Sut y bydd eich prosiect yn dda ar gyfer yr iaith Gymraeg?

## 9. Lleoliad y prosiect



Ble bydd eich prosiect yn digwydd?

## 10. Gwybodaeth am gydraddoldebau'r prosiect




Dangoswch sut y byddwch chi'n trin pawb yn deg yn eich prosiect.

## 11. Adolygwch eich cais




Gwiriwch bob darn o'ch gwybodaeth.

## 12. Gwirio cyn cyflwyno



Gwnewch unrhyw newdiadau yma cyn clicio nesaf.

# 13. Gwybodaeth i'ch cefnogi



Gallwch roi eich dogfen i ni yma.

Dyma ddylai'r prif bethau fod:




- Cyllideb eich prosiect. Dywedwch wrthyn ni sut rydych chi'n bwriadu gwario'r arian. Defnyddiwch **batrymlun cyllideb y cyfalaf** y byddwn yn ei anfon gyda'r ddolen gyswllt i wneud cais.



- Prisiau gan gyflenwyr:




Gofynnwch i dri gwahanol gyflenwr am bris ar gyfer pethau sy'n costio **£2,500 neu fwy**.



Ar gyfer gwaith gan gyflenwr sydd dros **£25 mil o bunnoedd**, bydd arnoch chi angen dangos i ni eich bod wedi gofyn i lawer o gyflenwyr am brisiau. Efallai y bydd arnon ni angen gweld sut y gwnaethoch chi hyn.

Efallai hefyd y bydd arnoch chi eisiau rhoi i ni ddogfennau sy'n dangos:



- Mwy am gynllun eich prosiect
- Prawf bod ar bobl eisiau eich prosiect
- Pwy arall sy'n rhoi arian neu help i chi
- Lluniau o'r pethau y mae arnoch chi eisiau eu hadeiladu neu eu newid.

## 14. Datganiad a chyflwyno eich cais



Darllenwch y sgrîn, gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno a phwyswch cyflwyno.

# Sut i ddefnyddio patrymlun cyllideb y prosiect



Llenwch gyllideb eich prosiect gan ddefnyddio ein patrymlun a’r penawdau sy’n cael eu rhoi.




Mae’r patrymlun yn adio’r rhifau i chi.



Llenwch y blychau gwyn yn unig. Gadewch unrhyw rannau sydd ddim yn addas ar gyfer eich prosiect yn wag. Peidiwch â newid blychau lliw.



Defnyddiwch bunnoedd yn unig, nid ceiniogau.



Dylai eich cyllideb ddangos faint y bydd eich prosiect yn eich gostio. Mae hyn yn golygu **Arian y byddwch yn ei wario**.



A faint o arian y bydd arnoch chi ei angen. Mae hyn yn golygu **Arian y byddwch yn ei wario**.




Gwnewch yn siŵr bod eich cyllideb yn dangos y gallwch orffen eich prosiect erbyn **31 Mawrth 2025**.

## Gwariant y prosiect – Arian y byddwch yn ei wario

### Offer



Rhestrwch bob eitem neu becyn rydych chi'n bwriadu ei brynu a'i gostau. Pecyn ydy grŵp o eitemau y byddwch chi'n ei gael gan un cyflenwr.



Gwnewch yn siŵr bod y costau yn eich cyllideb yn cyd-fynd â'r prisiau rydych chi'n eu rhoi i ni.

## Gwaith adeiladu



Dywedwch wrthyn ni beth ydy holl gostau eich prosiect adeiladu. Neu torrwch ef i lawr yn rhannau os bydd gwahanol bobl yn gwneud gwahanol waith.



Os ydych chi'n mynd i dalu **£5 mil o bunnoedd neu fwy** i rywun, gofynnwch am brisiau gan dri gwahanol gyflenwr.



Os ydych chi'n mynd i dalu **£25 mil o bunnoedd neu fwy**, bydd arnoch chi angen gofyn i ni ydy hynny'n iawn cyn edrych am gyflenwr.



Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrthyn ni pam rydych chi wedi dewis eich cyflenwr.




Os oes gennych chi brisiau yn barod, yna defnyddiwch nhw ar gyfer eich cyllideb.

## Taliadau Proffesiynol



Dywedwch wrthyn ni am unrhyw daliadau y byddwch chi'n eu gwneud i'r arbenigwyr. Dywedwch pam mae arnoch chi angen eu talu a sut y gwnaethoch chi eu dewis. Os ydych chi'n mynd i dalu **£5 mil o bunnoedd neu fwy**, gofynnwch am brisiau gan dri gwahanol gyflenwr.

## Cefnogaeth mewn nwyddau



Dywedwch wrthyn ni am unrhyw help am ddim y byddwch chi'n ei gael. Gallai hyn fod yn bobl yn gweithio am ddim. Neu dir, adeiladau neu offer.




Peidiwch â dweud wrthyn ni am ddisgowntiau gan gyflenwyr.



Dylech chi gyflwyno llythyr gyda'ch cais sy'n dangos y gefnogaeth a'i werth.

## TAW



Os ydych chi wedi cofrestru at ddibenion TAW, gallwch gynnwys gostau TAW na allwch ei gael yn ôl gan CThEF.

Os nad ydych chi wedi cofrestru at ddibenion TAW, cynhwyswch TAW yn eich costau yn eich cyllideb.

## Arian efallai y bydd ei angen arnoch rhag ofn y bydd argyfwng



Mae hyn yn meddwl arian ychwanegol. Ychwanegwch damaid bach mwy o arian, rhag ofn y bydd arnoch chi angen gwario ar bethau nad ydych chi wedi bwriadu.

## Costau erail



Dywedwch wrthyn ni am unrhyw gostau eraill, fel cyflogi pobl, sicrhau diogelwch a ffïoedd cyfreithiol.

# Incwm y Prosiect – Arian a gewch



Defnyddiwch y patrymlun i ddweud wrthyn ni o ble y daw yr holl arian ar gyfer eich prosiect. Cynhwyswch enw pob un sy'n rhoi arian ac ydy eu harian wedi'i ganiatáu.

Dywedwch wrthyn ni os ydych chi'n defnyddio:




**Eich cronfa eich hun**. Eich arian eich hun.



**Incwm wedi ei ennill**. Arian rydych chi wedi ei gael wrth weithio.



**Arian gan yr Awdurdod Lleol**. Arian gan y cyngor lleol.



**Arian Cyhoeddus Arall**. Fel grantiau gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU.



**Cefnogaeth mewn Nwyddau**. Dylai hyn gyd-fynd a'r swm rydych chi wedi ei roi yn rhan Gwariant y Prosiect.



**Incwm arall**. Dywedwch wrthyn ni am unrhyw arian arall y byddwch yn ei gael. Fel arian mewn rhoddion neu grantiau gan y Lotri neu Ymddiriedolaethau.

# Sut i gysylltu â ni




Er mwyn cael y ffurflen gais, e-bostiwch ni yn capital@arts.wales gan gynnwys nodyn byr am eich prosiect.



Os bydd problemau â'r ffurflen gais neu eich cyfrif porth, e-bostiwch ein tîm **Grantiau a Gwybodaeth**: grants@arts.wales

Ffyrdd eraill o gysylltu â ni:



**Ffôn:** 03301 242733




**Gwefan:** www.arts.wales/cy/amdanom-ni

**Twitter:** @Arts_Wales_

**Instagram:** @celfcymruarts

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Mae'r amgylchedd o amgylch ble rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, a'r aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Hygyrchedd

Mae hygyrchedd yn meddwl y gall pawb ddod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio. Mae'n meddwl bod lleoedd yn hawdd mynd i mewn iddyn neu'n hawdd mynd o'u hamgylch nhw.